

ENGLYN

1af

Y Dosbarth

Ymysg ei ardd gymysg o pwy a wŷr
pa had sy'n egino
yn dawel, i flodeuo
trwy eu hoes pan ddaw eu tro.

John Ffrancon Griffith

CERDD

1af Nid yw'r testun ar gael.

2il Nid yw'r testun ar gael.

3ydd Nid yw'r testun ar gael.

STORI FER

1af

Cerdded Ymlaen.

Sefais yn yr ardd gan edrych ar y bryn gyferbyn, gyda'r un teimlad cyfarwydd yn fy hoelio i'r fan a'r lle. 'Falle taw'r sioc oedd e. 'Falle taw'r sylweddoliad bod bywyd weithiau'n or-greulon. Edrychais ar y coed, yn garped trwchus gwyrdd. Ysais am yr adeg pan oedd dringo coeden yn gallu chwalu pob problem mewn bywyd, fel petai bopeth cas, pob anhawster, yn anifail gwyllt yn brathu am fy sodlau. A fi, ar ôl neud yn siŵr bod Dad methu 'ngweld, yn codi bys canol slei ar y bwystfil - er fy mod i'n gwybod mai ymddygiad cwbl anghywir oedd hyn.

Ond dyw hi ddim yn briodol i fachgen un deg saith oed ddringo coed. Er hynny, mae llawer o bethau i wneud i ffoi rhag problemau. Roedd nifer o'm ffrindiau'n dechrau gyrru, nifer ohonyn nhw'n yfed, ac ambell un yn dod i'r ysgol yn wên o glust i glust, wrth sôn am 'goncwest' y noson cynt.

Roedd fy nihangfa i ar ffurf gitâr. Dim ond cordiau 'o'n i'n chwarae - mae picio ac ati yn cymryd llawer o ymroddiad, ac roedd darganfod a chwarae cordiau

fy hoff gân ar y pryd yn ddigon i osgoi unrhyw meddwl am Mam. Do'n i byth yn teimlo'n drist drosaf fi fy hun. Pan roedd pobl yn dweud; 'Mae rhaid bod cael dy fagu heb fam *mor* drist!'; '*Druan* arno fe! Ei fam wedi marw tra bod e *mor* ifanc', roeddwn i'n ymateb gyda 'Wel, sa'i 'di nabod unrhyw fywyd gwahanol.' Yr un ymateb gosodedig a oedd yn dod â'r sgwrs i ben, tra bod fy meddwl i'n gweithio *flat-out* i feddwl am strwythur cordiau un o ganeuon y *Scissor Sisters*.

Roedd yr haul ar fin cael ei lyncu gan goed pan sylwais i'n sydyn bod Dad yn sefyll drws nesa' ata'i. Roedd e'n edrych ar y mynyddoedd yn yr un ffordd â fi. Ar ôl sbel, dwedodd mewn llais isel fel sŵn beic modur yn y pellter;

'Ti'n iawn, boi?'

Arhosais. 'Ydw.'

'O'dd dy Nain 'di bod yn sâl ers i dy fam marw, ti'n gw'bod 'ny, yn dwyt ti?'

Arhosais eto. 'Ydw.'

'Fe fydd rhaid i ni'n dau cerdded 'mlaen gyda'n gilydd eto.'

Cerddais i lan i f'ystafell a chwarae bach o'r Scissor Sisters. Mae bywyd yn or-greulon weithiau.

*

Mae'n rhyfedd pa mor sydyn mae pethau'n symud ar ôl marwolaeth. Prin gwpl o ddyddiau sy' 'na rhwng marw a'r angladd, does 'na'm llawer o amser i ddod yn gyfarwydd â'r golled. Ac os yw'r tŷ roedd eich Nain yn byw ynddi'n perthyn i'r cyngor, mae angen clirio pob atgof, pob olin o'r gofod yn gyflym, fel gall y teulu nesa' creu atgofion newydd.

Nid achos o gerdded 'mlaen oedd hi, ond yn hytrach, cael ein tywys.

Dyna pam o'n i'n sefyll ar ysgol sigledig gyda 'mhen mewn ffwrn o 'stafell yn byseddu am olau. Yn sydyn daeth fy mysedd mewn cyswllt a phlastig oer, a chynnais y golau.

Sut yn y byd gwnaeth menyw mor hen llwyddo i gael cymaint o bethau lan fynna? Roedd bocsys cardfwrdd o'r llawr i'r nenfwd llethr. Camais i mewn i'r cynhesrwydd ac edrychais o gwmpas. Hen recordiau, llyfrau, cylchgronau, teganau, ac mewn cornel dywyll; hen gitâr. Roedd yn eistedd yn segur o dan orchudd llwch, gyda sticer enfawr a oedd yn crychu i ffwrdd ohoni'n darllen '*Jesus Loves Me*'. Chwarddais wrth ymestyn amdani. Roedd braich y gitâr wedi plygu o achos lleithder, a'r llinynnau'n beryglus o dynn.

'Ife Nain oedd pia hon?' gofynnais i ben Dad a oedd nawr wedi codi trwy'r twll yn y llawr. Roedd hanner wên ar ei wyneb, a'i lygaid yn llawn atgofion.

'Dy Fam,' atebodd, ei lais yn rhyfedd, fel petai angen peswch.

*

Y noson honno, eisteddais yn fystafell gan edrych ar gitâr Mam. Roedd hi'n amhosib ei chwarae, roedd ganddi sŵn erchyll, gyda'r llinynnau'n rhy fregus i diwnio. Es ati felly i ymarfer y *Scissor Sisters* ar fy ngitâr i. Rhoddais y trac ymlaen ar fy *iPod* fel arfer, a dechrau strymio gyda'r gân.

A, G, Cm, A, A, G, Cm, A.

Pan ddaeth y miwsig i'r cytgan, daliais ati, ond am y tro cyntaf, gwrandawais ar y geiriau. '*Gonna take your Mama out all night, yeah we'll show her what it's all about-*' Stopiais yn sydyn, ac edrychais ar gitâr Mam. Ro'n i'n teimlo mor rhyfedd. Dechreuais hanner chwerthin a hanner crio. Do'n i ddim yn wag fel o'r blaen, ond yn llawn emosiwn. Cymaint felly, nad oeddwn i'n siŵr iawn o fy nheimpladau o gwbl. Ar ôl ychydig munudau o ystyried, penderfynais setlo ar hapusrwydd.

*

Roedd yna rywbeth o'i lle, yn llythrennol. Edrychais y tu mewn i gwpwrdd am o leiaf y pedwerydd tro. Doedd hi ddim yna. Doedd hi ddim yn y 'stafell fyw chwaith, a dyna lle adawais i'r gitâr. Mae'n rhaid bod Dad wedi ei symud hi, ar ôl cecru arna i i'w symud.

'Dad!' gwaeddais, 'Ti 'di gweld gitâr Mam? O'dd hi yn y stafell fyw, dyw hi ddim yna!' Doedd yna ddim ymateb. 'Dad?!'

Newidiodd trywydd fy chwilio o'r gitâr i Dad. Des i mewn i'r gegin ac roedd Dad yn sefyll wrth y ffenest yn edrych ar y coed eto.

'D'wedais i wrthyt ti i'w symud hi,' sibrydodd.

'Dad?' holais.

'Os oeddet ti eisiau hi, fyset ti 'di edrych ar ei hôl hi.'

'Beth?' Roeddwn i'n dechrau poeni yn awr. 'Ble mae'r gitâr, Dad?'

'Di mynd.'

'Be ti'n meddwl? 'Di mynd?'

'Doeddet ti'n amlwg ddim ei heisiau hi. Felly es i a hi i'r *tip*.'

Methodd y geiriau gwneud synnwyr. Y tip? Beth oedd e'n meddwl? Ceisiais ofyn hynny, ond roedd 'ngwddf yn teimlo fel petai wedi cwympto lawr i fy stumog. Doedd dim aer i gefnogi fy llais chwaith.

Ar ôl sbel o ddistawrwydd, lle adeiladodd curiad fy nghalon i grasiendo yn fy nghlustiau, des o hyd i'm llais, 'Wyt ti'n sylweddoli does gen i ddim byd gan Mam? Mae gen *ti* atgofion, Dad. Mae gen *ti* bob diwrnod gyda hi yn dy ben. Does gen i ddim. DIM BYD DAD! Ond 'roedd gen i'r gitâr!'

Arhosodd Dad i sŵn fy llais gorffen atseinio trwy'r tŷ. 'Mae gen *ti* fywyd. Dyna be' roddodd dy fam iti.'

Roeddwn i'n gynddeiriog. 'Dyw hynny ddim yn ddigon da!'

Trodd Dad i edrych arna i, ei wyneb yn llawn edifeirwch. 'Mae'n rhaid inni gerdded ymlaen. Os nag ydyn ni, sut ydyn ni'n gw'bod 'bod ni'n dal i fyw.'

A thrwy fy nghynddaredd, er gwaethaf fy hun, ro'n i'n gw'bod ei fod e'n gywir.

Y Diwedd.

Matthew Woolfall-Jones

2il

Edrych Ymlaen

Gan Yr Ystumiwr

Fe ddilynasai'r nos ei phatrwm arferol. Wedi bod ar ddihun trwy gydol y nos, yn troi a throsi yng ngwacter ei wely dwbl gan ddisgwyl yn ofer am arwydd cyntaf y wawr, syrthiasai Hywel i gysgu o'r diwedd, dim ond i aildeffro a darganfod bod yr haul, yn ogystal â chân yr aderyn du, yn ceisio treiddio'r hen leni brwnt, trymion.

Wel, nid y patrwm arferol oedd e wedi'r cwbl, a dweud y gwir, gan nad oedd yr haul na'r aderyn du wedi ymddangos fel rhan o'r ddefod foreol hon ers tro byd. Roedd y gaeaf wedi bod yn un trychinebus i Hywel. Dim ond yn hydref y flwyddyn gynt y dechreuasai ddod ato'i hun ar ôl y tair blynedd o ddiffrwythder. O ddechrau'i wellhad ymlaen, fe deimlai angen gref dianc, rhedeg bant i'r dyfodol – i ffwrdd i ryw ffordd newydd o fyw. Ond daeth y gaeaf caletaf ers cyn cof i darfu ar ei gynlluniau (os gellid eu galw'n rhywbeth mor bendant â chynlluniau). Yn lle mynd allan i rywle – unrhywle – bob dydd neu hyd yn oed aros oddi cartref am ddau neu dri diwrnod o dro i'w gilydd, fe'i gorfodid i barhau i ddihoeni yng ngwyll unig, llychlyd yr hen dŷ mawr, yn garcharor i'w atgofion a'i ddifaru.

A dyma'r bore yr oedd wedi bod yn edrych ymlaen ato trwy gydol ei gaethiwed, y bore y byddid yn disodli holl ddryswch tywyll, madreddog ei feddwl gan weledigaeth ffres, golau, blaengar. Bore braf cyntaf yr haf.

Cafodd gawod cyflym a brecwast cyflymach a mynd allan drwy'r drws ffrwnt solet, mawr, Fictorianaid. Disgynnodd y grisiau i'r ardd ffrwnt, oedd yn amlwg wedi cael ei hesgeuluso'n ddiweddar. Nid oedd eisiau gyrru'r bore 'ma. Dim ond trwy yrru i Tesco, y banc neu swyddfa'r post yr oedd wedi dianc o'r tŷ dros y gaeaf hir hwnnw – neu dros y tair blynedd flaenorol o gaethiwed gwirfoddol, o ran hynny. Ar ôl iddo wella i ryw radd o'r hyn y trallodid ef ganddo, gallai fod wedi mynd ymhellach yn y car er gwaethaf y tywydd, wrth gwrs, ond rhywsut roedd angen arno gerdded, crwydro...

Brasgamodd drwy'r pentref, cymaint ag y gall dyn o'i oedran a chanddo ffon cerdded frasgamu, heibio i arwydd glas yr optegydd ymhle gweithiai *hithau* tan ... Aeth ar hyd y stryd arferent ei defnyddio er mwyn cyrraedd y Nelson ar nosweithiau cwis, ac hyd at y gamfa wrth ben y pentref . Wrth iddo groesi'r gamfa gyda pheth anhawster, cofiai am y tro hwnnw y daeth hi'n sownd wrth geisio mynd dros ryw gamfa'n rhywle. Serch iddi frifo'i choes, chwerthin a wnaeth yntau. Ysgrytiodd wrth gofio.

Wedi cerdded ar draws y cae cyntaf, oedd yn ffrwydriad aml-liw o flodau gwyllt y codwyd ei ysbryd ganddynt i rywbeth yn nesáu at orfoledd, fe ddaeth i gyffordd y llwybr â llwybr arall. Bu rhaid iddo stopio a meddwl am ennyd rhag cymryd y ffordd

anghywir – y llwybr a allai redeg gyda'r afon ymhellach ymlaen. Yr oedd yn hanfodol iddo osgoi'r ffordd honno ar bob cyfrif. Copa'r bryn o ble gallech weld am filltiroed yr oedd yn anelu ato. Dyna'r gyrchfan a fuasai o flaen ei lygaid drwy holl dywyllwch y gaeaf. Wrth feddwl, yr oedd camgymryd y llwybr yn amhosib, gan fod un ohonynt yn disgyn a'r llall yn esgyn tuag at y bryn.

Ond eto, ar ôl dringo am ychydig fe gafodd ei hun yn cerdded *i lawr*, yn is ac yn is. Troes yn ol, ond efallai nad oes dim byd o'i le? Gall llwybr lan unrhyw fryn ddisgyn typyn bach cyn dechrau esgyn drachefn. Troes eto – ac eto. Yn ôl ac ymlaen yr âi mewn penbleth cyn penderfynu y dylai fod wedi parhau i lawr. Ond ni chofiai i'r llwybr hwnnw lan y bryn ddisgyn ar unrhyw bwynt. Parhaodd, yn ansicr o'i hun, ar hyd llwybr llaith, garw drwy lwyni tywyll. Bu ar fin troi unwaith yn rhagor, pan safodd yn stond gan rythu ar rywbeth ar lan yr afon (oblegid dyna lle, heb rybudd, y cafodd ei hun). Rhywbeth glas. Crys-t glas, wedi'i blygu'n daclus. Crys-t glas ac enw optegydd arno.

Safasai yn ei unfan, yn gwyllo, wrth iddi straffaglu yn y dŵr. Wrth iddi ddechrau colli'r frwydr. Wrth iddi ddiflannu o dan y llifeiriant brawychus. Safasai – yn gwyllo, heb allu symyd. Arno yntau oedd y bai: am iddynt fynd am dro ar ddiwrnod gwlyb; am adael iddi geisio achub cyw aderyn du rhag cwympto yn y dŵr; am anghofio dod â'i symudol; am sefyll yno; am . . .

Nid oedd ganddo ddiddordeb yn y cwestiwn a oedd y crys-t glas ar y llwybr yn bodoli yn y byd hwn neu beidio. Yr unig ffaith yr oedd yn ymwybodol ohono oedd ei fod wedi'i ddedfrydu i fynd yn ôl i'w dŷ mawr, tywyll, llychlyd, unig ac i edrych yn ôl ac yn ôl, bob dydd, yn yr haf ac yn y gaeaf, beth bynnag y byddai 'r haul a'r aderyn du'n ei wneud.

Vic Coughtry

3ydd Nid yw'r testun ar gael.